

Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig

Adroddiad Cryno 2022



1.0 Cyflwyniad

Mae Prifysgol Caerdydd wedi ymrwmo i ddangos arweinyddiaeth o ran cynaliadwyedd ac i wella ein perfformiad amgylcheddol. Ein gweledigaeth yw creu dyfodol cynhwysol, cynaliadwy a chadarn i'n cymuned gan sicrhau fuddiannau amgylcheddol i Gaerdydd a Chymru yn ogystal ac i'r byd ehangach. Mae'n hollbwysig ein bod yn datblygu cynaliadwyedd amgylcheddol yn rhan annatod o'n gwerthoedd ac er mwyn ymgorffori Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig ym mhob agwedd o'n gweithgareddau academiaidd a'n gwasanaethau gweithredol.

Mae'r Nodau Datblygu Cynaliadwy (SDGs) a fabwysiadwyd gan holl Aelod-wladwriaethau'r Cenhedloedd Unedig yn 2015, yn alwad frys i bob gwlad weithredu - yn wledydd sydd wedi datblygu ac yn datblygu - mewn partneriaeth fyd-eang. Maent yn cydnabod bod yn rhaid i'r gwaith o roi diwedd ar dlodi ac amddifadedd eraill fynd law yn llaw â strategaethau sy'n gwella iechyd ac addysg, sy'n lleihau anghydraddoldeb, ac yn sbarduno twf economaidd. Mae'n rhaid i hyn oll ddigwydd ar yr un pryd â'r gwaith o fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a'r gwaith, a diogelu ein cefnforoedd a'n coedwigoedd.

2.0 Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig (SDG's)

Yn llofnodwyr cytundeb y Nod Datblygu Cynaliadwy, rydym wedi ymrwmo i ymgorffori'r Nodau Datblygu Cynaliadwy yn ein prosesau academiaidd a busnes, mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn ein [Strategaeth Galluogi Cynaliadwyedd Amgylcheddol](#). Yn rhan o'r Cytundeb, mae'n ofynnol i ni gwblhau arolwg blynyddol. Mae'r arolwg yn manylu ar ein gwaith ar ymgorffori'r 17 SDG yng ngweithgareddau addysg, ymchwil, arweinyddiaeth, gweinyddu ac ymgysylltu'r Brifysgol ac yn ei gweithrediadau.

Mae'r crynodeb canlynol yn manylu ar bob un o'r 10 SDG yr ydym wedi cyflwyno tystiolaeth amdanynt ar gyfer 2021/22 a Nodau Datblygu Cynaliadwy ychwanegol yr ydym wedi gwneud cynnydd arnynt yn ystod y flwyddyn academiaidd, gan ddarparu dadansoddiad ar Ymchwil, Dysgu ac Addysgu a chymau gweithredu strategol.

2.1 Ymchwil

Mae'r canlynol yn darparu sawl enghraifft o'r ymchwil sy'n gysylltiedig â'r SDGs.

SDG 2

Mae trefoli ym Mheriw yn gysylltiedig yn wrthdro â baich dwbl diffyg maeth: Dadansoddiad cyfun o 92,821 o barau mam-plentyn. *Daniel Mendoza-Quispe, Akram Hernández-Vásquez, J Jaime Miranda, Cecilia Anza-Ramirez, Rodrigo M Carrillo-Larco, Marco Pomati, Shailen Nandy, SOCSI, Antonio Bernabe-Ortiz.* Asesodd yr astudiaeth hon y berthynas rhwng trefoli a baich dwbl diffyg maeth (DBM) ym Mheriw. Cynhaliwyd dadansoddiad cyffredinol o'r Arolwg Demograffig ac Iechyd (2009 i 2016). Roedd "achos" DBM yn cynnwys plentyn â diffyg maeth a mam sydd dros bwysau/yn ordew. Yn achos trefoli, defnyddiwyd tri dangosydd: newidyn wyth categori yn seiliedig ar ddwysedd poblogaeth lefel ardal (trigolion / km²), newidyn trefol/gwledig deuol, a man preswyllo (cefn gwlad, trefi, dinasoedd bach, neu brifddinas/dinasoedd mawr). Roedd nifer yr achosion o DBM yn is mewn ardaloedd trefol nag mewn ardaloedd gwledig (cyfradd mynychder [PR] 0.70; 95% CI: 0.65-0.75), ac o'i gymharu â chefn gwlad, roedd DBM yn llai cyffredin mewn trefi (PR 0.75; 95% CI: 0.69-0.82), dinasoedd bach (PR 0.73; 95% CI: 0.67-0.79), a dinasoedd cyfalaf/mawr (PR 0.53; 95% CI: 0.46-0.61).
SDG 2

Mesur tlodi amlddimensiwn yn ôl diffiniadau cenedlaethol - gweithredu targed 1.2.2 o'r nodau datblygu cynaliadwy yn Benin, Gabon, Guinea, Liberia a Mali

HYPERLINK "<https://orca.cardiff.ac.uk/view/cardiffauthors/A1947395B.html>" HYPERLINK "<https://orca.cardiff.ac.uk/view/cardiffauthors/A2271342S.html>" *Pomati, Marco a Nandy, Shailen SOCSI. Measuring multidimensional poverty according to national definitions - operationalising target 1.2.2 of the sustainable development goals in Benin, Gabon, Guinea, Liberia a Mali.* Nébié, Gustave, Emeka-Anuna, Chinyere, N'Zue, Felix Fofana a Delamonica, Enrique, golygwyr. *Child Poverty and Social Protection in Central and Western Africa*, ibidem, tt. 99-120. SDG 2. Yng nghyd-destun y Nodau Datblygu Cynaliadwy (SDGs), datganiad Livingstone, a Llawr Amddiffyn Cymdeithasol y Cenhedloedd Unedig, mae'r llyfr hwn yn ymdrin â thlodi plant aml-ddimensiwn ac amddiffyniad cymdeithasol yng Nghanolbarth a Gorllewin Affrica. Mae'n canolbwyntio ar faint a mathau y sylw a roddir i amddiffyn cymdeithasol ac yn asesu gwahanol dueddiadau tlodi plant yn y rhanbarth. Yn bwysicach byth, mae'n edrych ar amddiffyniad cymdeithasol i atal a mynd i'r afael â chanlyniadau tlodi plant.

SDG3 a 6

Goruchwylio dŵr gwastraff yn helpu i fynd i'r afael â'r pandemig. *Yr Athro Andy Weightman, BIOSI.* Mae goruchwylio dŵr gwastraff yn adnodd iechyd cyhoeddus allweddol. Gan adeiladu ar gryfderau ym meysydd gwyddorau amgylcheddol, gwylidwriaeth clefydau a genomeg pathogen, mae tîm rhyngddisgyblaethol o arbenigwyr o Brifysgol Caerdydd, Prifysgol Bangor, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Dŵr Cymru yn monitro lefelau COVID-19 mewn dŵr gwastraff ledled Cymru ar hyn o bryd. Maent hefyd yn rhannu eu harbenigedd â phartneriaid lleol a rhyngwladol i ddatblygu a chymhwyso systemau monitro ledled y byd, gan sicrhau bod yr ymdrechion hyn yn berthnasol i amrywiol gyd-destunau. Mae rhannu arfer gorau yn caniatáu dull gwydn o fynd i'r afael â'r pandemig byd-eang hwn. SDGs: 3, 6.

The connection between subjective wellbeing and pro-environmental behaviour: Individual and cross-national characteristics in a seven-country study. *Stuart Capstick, Nicholas Nash, Lorraine Whitmarsh, Wouter Poortinga, Paul Haggan, Adrian Brügger PSYCH.* Gwelwyd bod perthynas gadarnhaol a chyfochrog rhwng lles goddrychol ac ymddygiad o blaid yr amgylchedd (PEB) ar draws ystod o wledydd ledled y byd. Fodd bynnag, mae rheswm da i feddwl y gallai natur y cysylltiad PEB-lles amrywio rhwng unigolion a thrawsddiwylliannol. Rydym yn profi'r rhagdybiaeth 'gwyrrdd cymdeithasol' bod cysylltiad agosach rhwng ymddygiad yn y gyhoeddfa â lles nag y mae ymddygiadau yn y maes preifat mewn diwylliannau cydberthnasol; ochr yn ochr â hyn, rydym yn asesu a yw ymddygiad yn y maes preifat yn gysylltiedig yn agosach â lles mewn diwylliannau unigolyddol. Rydym yn cael tystiolaeth gref am gysylltiad PEB-lles ar draws gwledydd. Ceir tystiolaeth rannol ar draws gwledydd i gefnogi'r rhagdybiaeth 'werdd gymdeithasol', ond ychydig o dystiolaeth am y rhagdybiaethau 'breintiedig' neu 'wella'. Rydym yn trafod goblygiadau ein canfyddiadau ar gyfer deall y berthynas rhwng PEB a lles ac yn ystyried sut y gallai ei hyrwyddo fod yn rhan o bolisi iechyd yr amgylchedd ac iechyd cyhoeddus. SDGs: 3, 13.

SDG 11

Digwyddiadau bywyd a'u cysylltiad â newidiadau yn amllder y defnydd o drafndiaeth mewn sampl fawr yn y DU. Colin Whittle, Lorraine Whitmarsh, Nicholas Nash, Wouter Poortinga *PSYCH.* Mae ei astudiaeth yn ymchwilio i gysylltiadau rhwng tarfu (ar ffurf digwyddiadau bywyd a digwyddiadau sy'n benodol i drafndiaeth) a newidiadau yn amllder y defnydd o geir, fsys, o drenau, ac o feiciau dros gyfnod o ddwy flynedd. Mae'r dadansoddiad yn ymestyn ymchwil blaenorol yn y maes hwn drwy ystyried newidiadau yn amllder teithio at bob pwrpas, nid yn unig ar gyfer cymudo. At hyn, profodd yr astudiaeth y ddamcaniaeth hunan-actifadu trwy ryngweithio rhwng profi digwyddiad bywyd a

phryder amgylcheddol. Mae'r canlyniadau'n dangos bod adleoli man preswyl a bod yn rhiant yn gysylltiedig â newidiadau sylweddol yn amlder y defnydd o ddulliau teithio. Roedd adleoli yn dangos y patrwm mwyaf cyson i ffwrdd o geir, o fsys, o drenau, ac o feiciau tra bod bod yn rhiant yn dangos tebygolrwydd is yn gyson o gynnyddu'r defnydd o'r dulliau hyn (ac eithrio ceir), ond dim mwy o debygolrwydd o leihau. Roedd digwyddiadau sy'n benodol i drafnidiaeth yn aml yn cyfrif am fwy o debygolrwydd o newid yn y defnydd o ddulliau teithio – er enghraifft, cael trwydded yrru, newid nifer y ceir ar yr aelwyd, a newid i/o leoliadau trefol â chysylltiadau mawr â newidiadau mewn ymddygiad teithio – er nad oedd y rhain yn gyson ar draws dulliau.

SDG12

Cynorthwyo trefnwyr digwyddiadau i gynnal digwyddiadau chwaraeon a diwylliannol sy'n fwy cynaliadwy. *Dr Andrea Collins a'r Athro Max Munday, CARBS.* Mae ymchwil wedi newid sut mae llunwyr polisïau, trefnwyr digwyddiadau ac ymgynghorwyr yn deall ac yn gwerthuso effeithiau amgylcheddol digwyddiadau mawr. Mae'r ymchwilwyr wedi gweithio gydag amrywiaeth eang o bartneriaid i gynhyrchu adran amgylcheddol y pecyn cymorth 'eventIMFACTS' gan UK Sport (asiantaeth chwaraeon perfformiad uchel y DU) ac mae wedi arwain at lwyfannu digwyddiadau mwy cynaliadwy mewn pum cyfandir. Er enghraifft, mae'r ymchwil wedi dylanwadu ar ddatblygiad a chwmpas y Safon Ryngwladol gyntaf o ran Cynaliadwyedd ar gyfer Twrnameintiau Golff, sy'n cynnal twrnameintiau mawr yn yr Unol Daleithiau, yr Eidal a Tsieina. SDGs: 12, 13.

SDG13

Newid ymddygiad i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. *Lorraine Whitmarsh, Wouter Poortinga, Stuart Capstick, PSYCH.* Mae mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn gofyn am newid ymddygiad dwys, nid yn unig o ran gweithredu gan ddefnyddwyr, ond hefyd ar weithredu fel aelodau o gymunedau a sefydliadau, ac fel dinasyddion sy'n gallu dylanwadu ar bolisïau. Fodd bynnag, er bod llawer o fodolau ymddygiadol yn bodoli i esbonio a rhagfynegi ymddygiadau lliniaru ac addasu, rydym yn dadlau bod eu defnyddioldeb wrth sefydlu newid ystyrion yn gyfyngedig oherwydd eu bod yn rhy lleihaol, yn rhy unigolyddol, yn rhy llinol, yn rhy ystyriol ac yn ddall i effaith amgylcheddol. Mae hyn wedi arwain at ganolbwyntio ar strategaethau ymyrraeth is-optimaid, yn enwedig ar ddulliau gwybodaeth. Mae mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd yn gofyn am ganolbwyntio ar ymddygiadau effaith fawr ac ar grwpiau allyriad mawr; ar ymyriadau rhyngddisgyblaethol sy'n mynd i'r afael â gyrwyr, ar rhwystrau a chyd-destunau ymddygiad lluosog; ac ar amseru i sicrhau bod ymyriadau yn cael eu targedu at eiliadau o newid pan fydd arferion yn wannach. SDGs: 13, 3

SDG14

Dyfroedd croyw iach ar gyfer pobl ac ecosystemau. *Yr Athro Isabelle Durance, Yr Athro Steve Ormerod, Yr Athro Andrew Weightman, BIOSI.* Mae dŵr croyw iach yn ffynhonnell bwysig o ran dŵr yfed glân ac yn cynnal yr holl fywyd gwylt i lawr yr afon, gan gefnogi gweithgareddau dynol allweddol sy'n cynnwys pysgodfeydd, amaethyddiaeth a hamdden. Er hyn, mae ecosystemau dŵr croyw ymhlith y rhai sydd dan y bygythiad mwyaf yn y byd. Canfu ymchwil yng Nghaerdydd fod trosglwyddiadau ynni gan ecosystemau afonydd yn cysylltu tirweddau, bioamrywiaeth afonydd a gwasanaethau allweddol megis dŵr glân neu darparu pysgod. Roedd y canfyddiadau hyn yn allweddol i raglen rheoli cynaliadwy newydd ar gyfer Safle Treftadaeth y Byd UNESCO yn Affrica. Fe ysgogodd yr ymchwil hefyd y gwaith o ailwampio polisïau ac ymarfer ym maes rheoli ecosystemau dŵr croyw yng Nghymru. SDGs: 6, 14 (3, 15).

SDG15

Deall dosbarthiad gofodol a phoethfannau eliffantod Borneaidd sydd â cholera mewn tirwedd aml-ddefnydd *N. K. Abram, B. Skara, N. Othman M. Ancrenaz, K. Mengersen a B. Goossens. BIOSI.* Yng ngorlifdir Kinabatangan, Sabah, Borneo Malaysia, mae palmwydd olew ac aneddiadau wedi lleihau a darnio coedwigoedd trofannol yr iseldir, sy'n gartref i oddeutu 200 o eliffantod Borneaidd sydd mewn perygl (*Elephas maximus borneensis*). Yn y rhanbarth hwn, mae eliffantod yn amrywio o fewn coedwigoedd, ac o fewn ardaloedd palmwydd olew ac ardaloedd cymunedol. Mae i ba raddau y mae eliffantod yn defnyddio'r ardaloedd hyn yn parhau i fod yn aneglur. Gwnaethom ddefnyddio data telemetreg GPS rhwng 2010 a 2020 ar gyfer 14 eliffant sydd â cholera i fapio eu hystodau cyfain hysbys a'u hardaloedd defnydd uchel (poethfannau) ar draws pedwar categori defnydd tir ac i amcangyfrif yr amser a dreulir o fewn y rhain. Roedd y defnydd o fathau ar ddefnydd tir ar draws eliffantod yn amrywio'n sylweddol. Yn nodweddiadol, roedd benywod yn ffyddlon iawn i goedwigoedd, ond mae llawer o'r coedwigoedd hyn yn wynebu'r bygythiad o gael eu trosi'n ddefnydd arall. Ar gyfer y tri gwrywaidd, a nifer o fenywod, roeddent yn gwneud defnydd mawr ar ystadau palmwydd olew, a gallai hyn fod oherwydd llai o athreiddedd tirwedd neu gyfleoedd chwilota. Mae amddiffyn pob cynefin coediog a rheoli ardaloedd y tu allan i ardaloedd gwarchoddedig yn effeithiol yn angenrheidiol er mwyn i'r boblogaeth hon oroesi yn y tymor hir. SDGs: 15,13

Tirwedd amlddisgyblaethol a rheoli bioamrywiaeth yn Noddfa Bywyd Gwylt Lower Kinabatangan, Sabah, Malaysia. *Yr Athro Benoit Goossens, Yr Athro Mike Bruford, Dr TC Hales, BIOSI, EARTH).* Mae tirweddau amlswyddogaethol sydd o werth uchel o ran bioamrywiaeth, yn creu nifer o heriau gwyddonol, yn enwedig wrth gydbwysu gofynion cymunedau lleol, bywyd gwylt a darpariaeth o ran gwasanaethau ecosystemau. Yn Sabah, mae Prifysgol Caerdydd wedi bod yn gweithio gyda gweithredwyr o adrannau llywodraethol i gymunedau lleol i ddatblygu cynlluniau rheoli mewn amgylchedd lle mae newid tirwedd (datgoedwigo ac amaethyddiaeth olew palmwydd) wedi arwain at ddirywiad mewn poblogaethau o rywogaethau bywyd gwylt allweddol ar gyfer ecodwristiaeth (e.e. Eliffantod Borneo, yr orang-utan, a'r crocodeil) a cholli gwasanaethau sy'n ymwneud ag ecosystemau. Maent hefyd yn cydweithio ar brosiect adfer coedwigoedd cymunedol trwy raglen Aildyfu Borneo (Regrow Borneo), sy'n ceisio ailgysylltu'r 'coridor bywyd' sydd mewn golwg ar gyfer gorlifdir Lower Kinabatangan Isaf. SDGs: 15, 13.

SDG16

Mae Caru Grangetown yn brosiect cynllunio partneriaeth blynyddol rhwng Prifysgol Caerdydd a thrigolion Grangetown. Mae Caru Grangetown wedi bod yn ymgynghoriad blynyddol ers 2015, ac mae adborth gan y gymuned bob tro wedi bod yn amhrisiadwy wrth fynd ati i lywio ffocws a strategaeth y Porth Cymunedol. Mae partneriaethau a gweithgareddau sy'n cyd-fynd â'r naw thema ac sy'n gysylltiedig ag ymchwil neu addysgu Prifysgol Caerdydd neu sy'n gallu gwella profiad y myfyrwyr drwy roi cyfleoedd gwerthfawr i wirfoddoli wedi cael eu hariannu neu eu cefnogi dros y blynyddoedd.

Yn ystod pandemig COVID-19, cynhelid Caru Grangetown ar-lein er mwyn sicrhau nad oedd oedi i'r broses, ac mae hyn wedi ein galluogi i bennu'r themâu allweddol yn ystod y cyfnod heriol hwn. Cynhaliwyd Caru Grangetown ddiwethaf ar 18 Tachwedd 2021, a dangosodd y canlyniadau fod angen rhoi blaenoriaeth i 'Strydoedd Glân a Mannau Gwyrdd' o hyd. Er hynny, gwelwyd bod pryder am 'Ddarpariaeth ar gyfer Pobl Ifanc' yn dod i'r amlwg. Bydd y canlyniadau hyn yn llywio'r prosiectau rydym yn eu cefnogi i sicrhau bod anghenion cymuned Grangetown yn cael eu diwallu. SDGs: 11, 13.

2.2 Dysgu ac Addysgu

Yn sefydliad Addysg Uwch eang iawn ei phynciau, mae gan Brifysgol Caerdydd ystod sylweddol o raglenni addysg ffurfiol ar lefel Israddedig, Ôl-raddedig a Addysgir ac Ôl-raddedig Ymchwil sy'n cyfrannu at sicrhau bod gan ein myfyrwyr ddealltwriaeth o'r Nodau Datblygu Cynaliadwy. Mae gennym hefyd ystod o fentrau anffurfiol ar waith sy'n cefnogi'r gwaith hwn, megis [prosiect y Porth Cymunedol](#) a [Rhagnodi Cymdeithasol Gwyrdd](#). Mewn blynyddoedd blaenorol mae ein harweiniad addysgol wedi cydnabod y gellid bod wedi ystyried bod ein hymgysylltiad â'r Nodau Datblygu Cynaliadwy yn bocedi o ymarfer fel petai, dan arweiniad unigolion, a hynny oherwydd absenoldeb cefnogaeth strategol. Fodd bynnag, yn ystod 2021-22 mae symud tuag at weithgarwch wedi'i gyfarwyddo'n fwy strategol wedi dechrau gyda phenodiad Dr Julie Gwilliam a Deon Addysg a phrofiad myfyrwyr ar gyfer coleg y Gwyddorau Ffisegol a pheirianneg fel Arweinydd Academaidd Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy i'r sefydliad. Cefnogir y gwaith hwn gan ymrwymiad penodol i'r SDGs yng nghyd-destun addysg drwy gydol y Strategaethau cyfredol:

Ail-lunio'r Ffordd Ymlaen:

Ein Gwerthoedd: Cynaliadwyedd amgylcheddol

Rydym yn hyrwyddo addysg ynghylch cynaliadwyedd ac yn galluogi myfyrwyr a staff i wneud newidiadau cadarnhaol i'n heffaith amgylcheddol, yn enwedig ein targed o ddod yn garbon niwtral erbyn 2030.

Cefnogir ac atgyfnerthir hyn drwy'r gwaith o wella is-strategaethau amgylcheddol, ac is-strategaeth addysg a phrofiad myfyrwyr.

Is-strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol

Ein dyhead: Mae Prifysgol Caerdydd wedi ymrwymo i ddangos arweinyddiaeth o ran cynaliadwyedd ac o ran gwella ein perfformiad amgylcheddol. Ein gweledigaeth yw creu dyfodol cynhwysol, cynaliadwy a chadarn i'n cymuned gan sicrhau fuddiannau amgylcheddol i Gaerdydd a Chymru yn ogystal â'r byd ehangach. Mae'n hollbwysig ein bod yn datblygu cynaliadwyedd amgylcheddol yn rhan annatod o'n gwerthoedd ac er mwyn ymgorffori Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig ym mhob agwedd o'n gweithgareddau academaidd a'n gwasanaethau gweithredol.

Byddwn yn hyrwyddo cynaliadwyedd trwy addysg, trwy ledaenu gwybodaeth a thrwy gyfranogiad unigol sy'n galluogi myfyrwyr a staff i wneud newidiadau cadarnhaol i'n heffaith amgylcheddol, yn enwedig ein datganiad bod Argyfwng Hinsoddol a'n nod i fod yn garbon niwtral erbyn 2030 (Cwmpasau 1 a 2). **Byddwn yn galluogi ein myfyrwyr, ein graddedigion, a'n staff i ddod yn ddinasyddion cynaliadwy sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymdeithas ac yn weithgar o fewn eu cymunedau**. Byddwn yn sicrhau bod datblygu cynaliadwy yn ystyriaeth bwysig wrth wneud pob penderfyniad mawr, yn hyrwyddo materion ac egwyddorion cynaliadwyedd gyda'r holl staff, myfyrwyr a rhanddeiliaid, ac yn defnyddio ein hymchwil arloesol i wella cynaliadwyedd byd-eang.

Prifysgol sy'n Gyfrifol yn fyd-eang: Byddwn yn hyrwyddo addysgu ynghylch cynaliadwyedd a hefyd yn hyrwyddo rhannu gwybodaeth am gynaliadwyedd, ac yn galluogi myfyrwyr a staff i wneud newidiadau cadarnhaol i'n heffaith amgylcheddol

Is-Strategaeth Addysg a Phrofiad Myfyrwyr:

- Byddwn yn cael ein hadnabod yn brifysgol sy'n gwerthfawrogi, yn hyrwyddo ac yn ymwreiddio cynaliadwyedd ym maes addysg ac yn ymgorffori cynaliadwyedd i faes addysg, gan alluogi myfyrwyr a staff i wneud newidiadau cadarnhaol i'n hamgylchedd.
- Thema 3: Cynllunio ar gyfer Dyfodol Llwyddiannus Myfyrwyr

- o *Creu cyfleoedd i archwilio sut mae'r Nodau Datblygu Cynaliadwy a deddfwriaeth Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn gysylltiedig â dysgwyr a'r ddisgyblaeth y maent yn ei hastudio, fel y nodir yn y Strategaeth Galluogi Cynaliadwyedd Amgylcheddol*
- o *Sicrhewch fod ein cwricwlwm yn darparu profiadau dysgu sy'n arfogi myfyrwyr ar gyfer pa bynnag lwybr y maent yn ei ddilyn ar ôl graddio, gan gynnwys mwy o integreiddiad ac amlygrwydd priodweddau graddedig a chyflogadwyedd ym mhob rhaglen; cyrsiau ledled y brifysgol mewn ystod ehangach o sgiliau, er enghraifft dulliau meintiol, sgiliau digidol ac ieithoedd.*

Mae ei rôl fel cadeirydd Grŵp Cymheiriaid Thematig Cymdeithas y Brifysgol Ewropeaidd ar gynaliadwyedd amgylcheddol dysgu ac addysgu (Gwilliam J A a Peterbauer H, 2021), wedi galluogi datblygu cynllun gweithredu drafft cynhwysfawr sy'n ceisio datblygu ein hymgysylltiad addysgol â'r SDGs, i yrru tuag at weithredu integredig ar draws y sefydliad. Dros y tair blynedd nesaf, ein nod yw:

- Cychwyn gweithgareddau i gefnogi esblygiad yr agenda hon ac ar gyfer ei hymgorffori yn Addysg CU
- Adroddiad blynyddol ar ymgysylltu ag Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy (ESD) ac â SDG
- Hyfforddiant ar gyfer Staff i alluogi ymgysylltu â'r Nodau Datblygu Cynaliadwy ac agenda ESD
- Gweithio mewn partneriaeth gyda myfyrwyr

Gwilliam J A & Peterbauer H (golygyddion) (2021). Cynaliadwyedd amgylcheddol dysgu ac addysgu: DYSGU AC ADDYSGU PAPUR #14 Adroddiad Grŵp Cyd-Ymchwilwyr y Thema dan sylw.

Yn ystod 2021-22, mae hyrwyddwyr academiaidd ESD wedi cael eu recriwtio ym mhob ysgol academiaidd a chynhaliwyd rhwydweithiau coleg yn rheolaidd. Mae'r hyrwyddwyr wedi bod yn gweithio yn eu hysgolion i godi proffil agenda ESD ac i goladu astudiaethau achos addysgol ESD ar gyfer eu disgyblaethau. At hyn maent yn cefnogi datblygiad rhaglenni newydd ac ailddilysu rhaglenni presennol, er mwyn sicrhau bod cynaliadwyedd yn drywydd ym mhrofiadau addysgol pob myfyrwr ym Mhrifysgol Caerdydd. Ar hyn o bryd mae tuag un o bob deg o ysgolion wedi dechrau eu prosesau ailddilysu, a disgwylir y bydd pob rhaglen wedi ymgymryd â phrosesau ailddilysu o fewn y 5 mlynedd nesaf.

Yn ystod haf 2022 dosbarthwyd arolwg i sefydlu dealltwriaeth o arferion cyfredol sy'n gysylltiedig â Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. Mae >80 o astudiaethau achos o arferion sy'n mynd i'r afael â'r holl SDGs wedi'u nodi ledled y brifysgol ac mae'r rhain bellach yn cael eu dogfennu fel astudiaethau achos a fydd yn cael eu cynnal ar dudalennau gwe newydd ar thema SDG a fydd ar gael i'r cyhoedd erbyn 2023-24.

Yn ogystal, mewn cydweithrediad â'r Academi Dysgu ac Addysgu, mae'r gwasanaeth datblygu addysg yn ymgorffori ESD mewn datblygu hyfforddiant a chymorth sydd â'r bwriad o gefnogi datblygiad rhaglenni newydd yn ogystal â'r gwaith sy'n angenrheidiol i sicrhau ailddilysu rhaglenni. O'r herwydd, ochr yn ochr â chynhwysiant a chyflogadwyedd, mae cynaliadwyedd yn thema graidd o'r holl hyfforddiant a chymorth sy'n cael eu datblygu, gan nodi'r lefel newydd o ymrwymiad sy'n cael ei roi i gynaliadwyedd mewn addysg yng Nghaerdydd. Cynhelir cyfres o weithdai yn 2022-23 i annog a galluogi ymgorffori ESD ar draws ein cwricwla.

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o astudiaethau achos Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy sydd wedi cael eu coladu ar gyfer blwyddyn academiaidd 2021-22.

SDG3 a SDG4

Mae myfyrwyr ffisiotherapi yn eu blwyddyn olaf yn archwilio'r cysylltiad rhwng iechyd y blaned ac iechyd y cyhoedd. A hithau'n seiliedig ar Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig, mae cyfres o ddarlithoedd ac adnoddau'n annog myfyrwyr ffisiotherapi yn eu blwyddyn olaf i archwilio sut mae cysylltiad anorfod rhwng iechyd y blaned ag iechyd y cyhoedd. Mae'r sesiynau'n rhoi sylw i faterion fel cyfrifoldeb personol a bod yn fodel rôl, y rhwymedigaethau proffesiynol i ystyried effaith ymarfer clinigol ar yr amgylchedd a'r dylanwadau amgylcheddol ar iechyd y cyhoedd yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang.

Caiff y myfyrwyr eu hannog hefyd i ystyried sut y gallant fod yn eiriolwyr dros gleifion/poblogaethau o ran gwella amgylcheddau lleol neu fyw mewn ffordd gynaliadwy er mwyn ehangu hygrychedd a chynwysoldeb. Bydd y myfyrwyr yn cael eu hasesu wrth weithio mewn grwpiau i ddatblygu ymyriad iechyd cyhoeddus a chynllun busnes cysylltiedig sy'n canolbwyntio'n arbennig ar gynaliadwyedd.

SDG4

Archwilio datrysiadau cyfrifiadura i amrywiaeth o faterion cynaliadwyedd. Fel rhan o'u cwrs, rhoddir cyfle i fyfyrwyr yn ein Hysgol Cyfrifiadureg a Gwybodeg ddewis pwnc sy'n gysylltiedig â mater cymdeithasol ac archwilio ystod o atebion cyfrifiadurol i fynd i'r afael â'r mater o bosibl. Gan fod newid yn yr hinsawdd a chynaliadwyedd yn bryderon mawr i lawer o fyfyrwyr, mae'r modiwl hwn wedi denu llawer o gynigion gan fyfyrwyr i geisio mynd i'r afael â'r materion hyn.

Mae prosiectau wedi canolbwyntio ar bynciau gan gynnwys plannu coed cymunedol, adrodd tanau gwyllt mewn coetiroedd, cynyddu nifer y peillwyr, lleihau tipio anghyfreithlon, ailgylchu dillad ysgol a chefnogi banciau bwyd. Mae pob un o'r atebion y mae myfyrwyr yn eu cynnig yn cael eu prototeipio a'u profi gan ddefnyddio dull dylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr, gan ganolbwyntio ar y defnyddwyr terfynol a'u hanghenion ym mhob cam o'r broses ddylunio. I fyfyrwyr ym maes cyfrifiadureg, mae wastad wedi bod yn her gweld cymwysiadau ac effeithiau peirianeg meddalwedd yn y byd go iawn. Mae'r modiwl hwn yn cynnig profiad byd go iawn, uniongyrchol i fyfyrwyr o sut y gallant ddefnyddio eu sgiliau i fynd i'r afael â materion cymdeithasol.

Mae adborth myfyrwyr wedi adlewyrchu hyn, gydag un myfyriwr yn gwneud sylwadau: "Doeddwn i ddim wedi sylweddoli pa rolau pwysig sydd gan wyddonwyr cyfrifiadurol wrth fynd i'r afael â materion cymdeithasol." Dywedodd myfyriwr arall: "Dysgais sgiliau gwych yn y modiwl hwn megis arsylwi ar bobl, siarad a gwrandao ar bobl, dadansoddi ymddygiad pobl pan fyddant yn rhyngweithio â chyfrifiaduron ac yn bwysig, sut i adeiladu offer cyfrifiadura gyda phobl ac ar eu cyfer."

SDG11

Mae myfyrwyr yn ein Hysgol Pensaernïaeth yn ymgysylltu â chymunedau lleol i sicrhau dyfodol cynaliadwy ar gyfer hen safleoedd diwydiannol. Crëwyd uned 'Gorffennol Carbon, Dyfodol Carbon Isel' i fyfyrwyr Pensaernïaeth yn eu pumed flwyddyn yn dilyn y galw ymhlith myfyrwyr am uned ddylunio sy'n ystyried themâu ôl-osod, ailddefnyddio mewn ffordd addasol a bod yn gynaliadwy. Mae briff yr uned yn galw ar y myfyrwyr i gynnig ffyrdd o sicrhau dyfodol cynaliadwy i safleoedd treftadaeth ddiwydiannol, gan gynnwys ffyrdd o'u defnyddio sy'n rhoi hwb i gyflogaeth yn lleol. Yn 2021/22, roedd y ffocws ar bwll glo The Navigation yng Nghrymlyn, Cwm Ebwy. Eleni, yn 2022/23, mae'r ffocws ar bwll glo Cefn Coed yng Nghwm Dulais. Mae'r myfyrwyr yn cael eu herio i ystyried sut y gall y safleoedd hyn, sy'n rhannol gyfrifol am yr argyfwng hinsawdd presennol, ysgogi dyfodol carbon isel i'r ardal leol ac ehangach, a hynny drwy ystyried yr economi gylchol a ffynonellau ynni adnewyddadwy, gan gynnwys ynni geothermol enthalpi isel. Roedd ymwneud Pennaeth Arloesedd Gwres a Sgil-gynnyrch yr Awdurdod Glo o gymorth i'r myfyrwyr wrth ymdrin â'r olaf. Cafodd y

dyluniadau o 2021/22 eu dangos mewn arddangosfa ar y safle, a gwahoddwyd y gymuned leol, gwleidyddion, llunwyr polisïau a'r cyhoedd ehangach i ddod i weld y cynigion. Dewisodd Ysgol Pensaernïaeth Cymru waith yr uned gyfan i'w gyflwyno ar gyfer Medal Llywydd Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain (RIBA). Mae'r uned wedi codi proffil ailddefnyddio mewn ffordd addasol, ôl-osod a pha mor bwysig yw carbon ymgorfforedig nid yn unig ymhlith y myfyrwyr ond hefyd ar draws MArch2 a'r Ysgol ac yn y gymuned leol ehangach drwy'r arddangosfa. "Roedd y cyfle i ddangos ein gwaith yng nghyd-destun ein safle'n anhygoel," meddai un o'r myfyrwyr. "Roedd gallu ymgysylltu â thrigolion Crymlyn a'r cyngor lleol, gyda strwythurau diwydiannol gorffennol carbon Crymlyn yn gefnlen i'r cyfan, o gymorth o ran creu cysylltiad gweledol a chyd-destunol gwych â'n prosiectau arfaethedig ar gyfer dyfodol carbon isel. "Roedd adborth ymwelwyr ar yr arddangosfa hefyd yn gadarnhaol: "Pleser o'r mwyaf oedd gweld cyflwyniadau terfynol y myfyrwyr yn yr arddangosfa – gwaith gwirioneddol ardderchog! Roedd y dadansoddiad beirniadol o waith y myfyrwyr ac amrywiaeth yr ymateb i friff prosiect mor berthnasol, amserol a heriol yn rhywbeth i'w gymeradwyo!"

2.3 Camau gweithredu strategol

Mae'r cynnydd wedi parhau gydag ymgorffori'r nodau mewn camau gweithredu strategol gan gynnwys nifer o strategaethau a Pholisïau allweddol gan gynnwys, Strategaeth Lles; Is-strategaeth Addysg a Myfyrwyr [Strategaeth Galluogi Cynaliadwyedd Amgylcheddol](#), [is-strategaeth Cenhadaeth Ddinesig](#), ERBAP, Strategaeth Gaffael; [Polisi Bwyd Cynaliadwy](#) a'r [Datganiad Polisi Iechyd, Diogelwch, Lles a'r Amgylchedd](#).

Mae'r canlynol, yn manylu ar gamau gweithredu penodol a wnaed yn unol â'r nodau y bu i ni gyflwyno ar eu cyfer:

SDG 3

Mae Prifysgol Caerdydd wedi parhau i wneud cynnydd sylweddol yn erbyn SDG3. Fis Mai 2022, llwyddom i ennill achrediad ISO 45003 ar gyfer iechyd a diogelwch seicolegol yn y gweithle. Ni yw'r HEI cyntaf yn y DU, ac yn un o'r cyntaf yn y byd i gyrraedd y safon ryngwladol hon. Mae Uchafbwyntiau Eraill yn cynnwys:

- Wnaethon ni ennill Gwobr Cyflawniad Iechyd a Lles gan Gymdeithas Diogelwch ac Iechyd y Prifysgolion (USHA).
- Gwnaethom ychydig o waith allgymorth cymunedol trwy weithredu fel noddwr a chynghorydd lles Hanner Marathon Caerdydd, gan greu cynnwys ar gyfer ei ymgyrch hunanofal #Choose You- <https://www.walesonline.co.uk/whats-on/whats-on-news/cardif-half-marathon-2022-enter-22833978>
- Rydym yn parhau i gynnig cefnogaeth helaeth i les staff ar ein tudalennau mewnwyd, gan gynnwys gwybodaeth am: - ein strategaeth lles staff, calendr blynyddol o ddigwyddiadau lles a matrices hyfforddi sy'n cynnwys yr holl hyfforddiant mewnol a gynigiwn ar gyfer iechyd meddwl a lles.
- Rydym hefyd wedi datblygu Cynllun Hyrwyddo Lles Personol a Ffurflen Asesu Risg Straen Unigol.
- Cafodd Prifysgol Caerdydd ei chydabod hefyd gan Iechyd Cymru'n Gweithio, gan gydnabod cyflogwyr a roddodd gymorth lles eithriadol i'w gweithwyr yn ystod pandemig COVID.

- Rydym hefyd yn cynnig hyfforddiant MH a lles achrededig i reolwyr, i staff anreolaethol ac i fyfyrwyr, fel rhan o ddull sefydliad ataliol, cyfan - [Home | Hyfforddiant i-act | Y Deyrnas Unedig](#)

SDG5 a SDG10


Mae llwyddiannau o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wedi cynnwys:

- Daethom yn 7^{fed} yn gyffredinol ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall 2022 gan gydnabod ein bod yn un o'r cyflogwyr mwyaf cynhwysol ym Mhrydain. Gwnaethom hefyd ennill Gwobr Aur sy'n cydnabod safon ein gwaith yn y maes hwn. Ni yw'r brifysgol uchaf yn y DU yn y Mynegai ac rydym wedi codi o 10^{fed} yng nghanlyniadau 2020. Cafodd rhwydwaith LHDT+ staff y Brifysgol, [Enfys](#), Gymeradwyaeth Uchel gan y Mynegai hefyd. Ar hyn o bryd, mae gennym statws Cyflogwr Gwych ar gyfer Pobl Draws, a chafodd Enfys, sef ein rhwydwaith LHDT+, ei chydnabod yn Grŵp Rhwydwaith Uchel ei Barch.
- Rydym wedi cadw ein gwobr efydd sefydliadol Athena SWAN, ynghyd â nifer o lwyddiannau ar lefel Ysgol.
- Cynhaliwyd cyfres o gyflwyniadau i archwilio'r hyn y mae angen i ni fel cymdeithas ei wneud i hyrwyddo gwrth-hiliaeth ym mhob agwedd ar fywyd, gan ddangos ymrwymiad Prifysgol Caerdydd i wreiddio cydraddoldeb, ymwybyddiaeth a newid i bob agwedd ar ein gwaith. Gwnaeth Talking Anti-Racism at Cardiff University ddwyn ynghyd arbenigwyr ar draws y Brifysgol ynghyd â siaradwyr gwadd arbenigol i gychwyn trafodaethau pwysig ar hil. Cynhaliodd pob ysgol academiaidd sgwrs, gyda arbenigwyr y brifysgol a'r siaradwyr allanol yn trafod amrywiaeth o'u safbwyntiau unigryw eu hunain.
- I nodi Diwrnod Rhyngwladol i Bobl ag Anableddau ar 3 Rhagfyr, anogodd y Rhwydwaith Staff Anabledd bawb i gydnabod yr effaith y mae COVID-19 wedi'i chael ar bobl anabl ac i gael sgysiau am anabledd. Dathlwyd y diwrnod trwy oleuo'r Prif Adeilad yn borffor a chwifio baner borffor i gefnogi a hyrwyddo hawliau a lles pobl sydd ag anableddau. Mae porffor yn cael ei gysylltu'n gynyddol ag anabledd ac mae'n symbol o'r cyfraniad a wneir gan bobl anabl i gymdeithas. Eleni, mae Diwrnod Rhyngwladol Pobl ag Anableddau yn cydnabod bod pobl sy'n byw gydag anableddau ymhlith y bobl yr effeithir fwyaf arnyn nhw yn sgil pandemig COVID.

SDG12

Mae'r Gwasanaethau Arlwyo'n parhau i weithredu'r Polisi Strategaeth Fwyd sy'n sicrhau bwyd sydd wedi'i gaffael mewn modd moesegol a chynaliadwy ar draws yr holl wasanaethau arlwyo; mae hyn yn ymgorffori pob cam o'r gadwyn gyflenwi bwyd, o gaffael, i gynhyrchu i'r cwsmer ar ei diwedd. Lanswyd menter newydd 'yn rhy dda i fynd' yn y prif fwyty ac yn Green shoots Cafe ac mae wedi cael ymateb cadarnhaol iawn ac wedi ymddangos yng Nghymru ar-lein. Mae ychydig dros 60% o'r fwydlen yn seiliedig ar fwyd figan a llysieuol, ac mae'r ochr pysgod a chig i lawr i lai na 40% erbyn hyn. Yn adran y Biowyddorau, mae poteli llaeth gwydr wedi cael eu cyflwyno mae hyn yn dilyn ceisiadau gan ddefnyddwyr yr adeilad am boteli y gall cwsmeriaid eu hail-lenwi - mae cwsmeriaid yn talu blaendal am y botel llaeth, sy'n ad-daladwy, ac yna maent yn talu am y llaeth a phob tro yr unig beth maent yn ei wneud yw cyfnewid y botel frwnt am botel lân.

Gwnaethom barhau i hyrwyddo'r defnydd o'r cyfleusterau ailgylchu un ffrwd ar draws y campws. Effeithiodd y pandemig ar ein gallu i ailgylchu cymaint o'r ffrwd wastraff. Ein nod o hyd yw lleihau faint o wastraff sy'n cael ei anfon at Adfer Ynni i ddim mwy na 30% a chynyddu cyfran y gwastraff sy'n cael ei anfon i'w ailgylchu i 70% erbyn 2024/25.



SDG13

Cwblhawyd archwiliad allyriadau carbon yn 2022 oedd yn ddilyniant i'r Papur Gwyn ar yr Hinsawd [d a manylodd ar ein hallyriadau carbon 1, 2 a 3 a'n bwriad i fod yn sero-net ar gyfer cwmpas 1 a 2 erbyn 2030 ac ar gyfer cwmpas 3 cyn 2050. Gellir gweld yr adroddiad yn: \[Cynaliadwyedd - Amdanom - Prifysgol Caerdydd Mae ein Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol a'n Cynllun Gweithredu wedi cael eu hadolygu a'u diweddarau i ymgorffori ein camau gweithredu hyd at 2023.\]\(#\) Mae Risg Argyfwng Hinsawdd wedi'i gynnwys ar Gofrestr Risgiau Strategol y Brifysgol. Cymeradwyodd UEB nifer o rolau newydd i gefnogi'r agenda ES gan gynnwys Rheolwr Carbon Sero-Net. Mae'r Is-bwyllgor Cynaliadwyedd Amgylcheddol dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Is-Ganghellor yn parhau i arwain ar agenda ES gan ganolbwyntio ar uchelgais Carbon Sero-Net y Brifysgol a chan ddarparu adroddiadau yn y Cyngor. Fel aelod o'r rhwydwaith 'Ras i Sero' mae'n ofynnol i ni ddarparu adroddiad blynyddol a gwblhawyd gennym ym mis Awst.](#)

Rydym wedi rhedeg rhaglen SOS UK Green Impact am y 10^{fed} flwyddyn gyda'r opsiwn o gwblhau camau gweithredu naill ai ar y campws neu yn yr amgylchedd gweithio gartref. Rydym hefyd wedi lansio prosiect peilot ar gyfer Fframwaith Asesu Effeithlonrwydd Labordai, sy'n dilyn yr un egwyddorion â'r rhaglen Green Impact ond sy'n canolbwyntio ar gamau gweithredu cynaliadwy ar gyfer labordai.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Caerdydd ar eu Strategaeth Caerdydd Un Blaned.

SDG15

Gwnaethom barhau i wneud cynnydd gyda'r camau a nodir yn y Cynllun Gweithredu Gwydnwch a Bioamrywiaeth Ecosystem (ERBAP). Mae'r ERBAP, a ddatblygwyd ar y cyd gyd Chyngor Caerdydd yn defnyddio adnoddau ac arbenigedd cymuned ehangach ein Prifysgol: staff academiaidd a'r gwasanaethau proffesiynol, myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig. Mae'n ein galluogi i wneud yn siŵr bod ein hystâd yn cael ei rheoli mewn ffordd sy'n cynyddu ein hisadeidd gwyrdd, ac mewn ffordd sy'n hyrwyddo a gwella bioamrywiaeth ac yn codi ymwybyddiaeth ymysg ein myfyrwyr o'r

fioamrywiaeth sydd ar ein campws. Drwy Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y Brifysgol, byddwn yn gwella seilwaith gwyrdd y Brifysgol drwy wella amodau amgylcheddol ystâd werdd y Brifysgol gan 30% erbyn 2023. Dyfarnwyd gwobr efydd [Campws Cyfeillgar i Ddraenogod](#) i ni ym mis Ionawr 2022. Mae gweithgarwch presennol ein gweithgor, a'r hyn sydd ganddo ar y gweill ar gyfer y dyfodol yn cynnwys casgliadau sbwriel rheolaidd, ymgyrchoedd addysg, cyflwyniadau gan arbenigwyr, ac arolygon yn ymwneud â draenogod drwy ddefnyddio twneli ôl-traed.

Buom hefyd yn gweithio gyda myfyrwyr gradd meistr o'r Ysgol Pensaernïaeth ar eu dysgu sy'n seiliedig ar brosiect. Arweiniodd prosiect y campws Bioamrywiol at gynhyrchu Canllaw Plannu Coed ar gyfer y Brifysgol.

SDG16

Mae'r Brifysgol yn parhau i roi cyngor arbenigol drwy ystod o ddigwyddiadau, sesiynau briffio ac ymatebion i ymgynghoriadau gan gynnwys sesiynau briffio brecwast yr Ysgol Busnes, briffio i'r Llywodraeth ar effaith COVID 19 ar Brifysgolion ac Ymchwil Cymru, ac ymateb i ymgynghoriad Pwyllgor Gwyddoniaeth a Thechnoleg San Steffan i rôl technoleg. Hefyd, llofnododd y Brifysgol Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae hyn yn golygu rhoi cymorth gydag ystod o ymyriadau o ran polisïau, gan gynnwys, caffael, yn fwyaf diweddar.

SDG17

Yn fisol, yn Blas, fe gyhoeddwyd erthyglau sy'n codi ymwybyddiaeth staff a myfyrwyr ar draws y Brifysgol ynghylch camau gweithredu tuag at ymgorffori'r Nodau Datblygu Cynaliadwy, gan helpu i godi ymwybyddiaeth ynghylch ein gweithgareddau ac o ran addysgu yn eu cylch. Rydym yn ailadrodd camau gweithredu yn yr adroddiad SDG cryno a byddwn yn gwella gwybodaeth drwy ein tudalennau gwe sy'n ymdrin â chynaliadwyedd.

3.0 Mesur cynnydd

3.1 Safle Effaith Uwch Times

Mae Rhestr Effaith THE yn mesur sut mae Prifysgolion ar draws y byd yn ymgorffori'r Nodau Datblygu Cynaliadwy. Dyma'r ail flwyddyn i Gaerdydd gymryd rhan, gan gyflwyno yn erbyn 10 SDG gyda'r canlyniadau canlynol:

- SDG3 Iechyd a lles da – safle 45 (ymhlith y 5.2% uchaf yn fyd-eang) a safle rhif 5 yn y DU
- SDG12 Defnyddio a chynhyrchu cyfrifol – safle18 (ymhlith y 3.6% uchaf yn fyd-eang) a safle 11 yn y DU
- SDG13 Camau er budd yr hinsawdd – safle 34 (ymhlith y 6% uchaf yn fyd-eang) a safle rhif 4 yn y DU
- SDG14 Bywyd o dan ddŵr – safle 47 (ymhlith y 12.4% uchaf yn fyd-eang) a safle rhif 9 yn y DU
- SDG15 Bywyd ar y tir – safle 58 (ymhlith y 14.4% uchaf yn fyd-eang) a safle 16 yn y DU
- SDG17 Partneriaethau ar gyfer y nodau – safle 401 – 600 yn fyd-eang

Eleni, blwyddyn academiaidd 2021/22, byddwn yn cyflwyno tystiolaeth ar gyfer 10 o'r Nodau Datblygu Cynaliadwy gyda'r amcan o gyflwyno tystiolaeth ar gyfer pob un o'r 17 SDG ar gyfer blwyddyn academiaidd 2022/23. Rydym wedi gosod dangosydd perfformiad allweddol ar gyfer cynaliadwyedd amgylcheddol i fod ymhlith y 50 sefydliad gorau erbyn 2023.